

BOWND, WILLIAM (fl. c. 1658), Bedyddiwr Arminaidd

Enw: William Bownd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Bedyddiwr Arminaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Tudur Jones

Trigai yn Garth Fawr yn mhlwyf Llandinam, Trefaldwyn, ond addolai gyda Bedyddwyr Arminaidd Maesyfed. Nid oes cofnod iddo dderbyn tâl am weinidogaethu ar ôl 1658. Dadleuodd yn gyhoeddus â'r Crynwyr Alexander Parker a John Moon yn Scurwy, fferm gerllaw Rhaeadr, Maesyfed (gweler **HUGH EVANS**, (bu farw 1656). Bu farw'n ieuanc a phriododd ei weddw a William Price, Bucknell. Gyda John Price, Maesygelli, plwyf Nantmel, Maesyfed, cyhoeddodd Bownd y gyfrol *The Sun Outshining the Moon* (Llundain, 1658).

Awdur

Y Parchedig Brifathro Robert Tudur Jones, (1921 - 1998)

Ffynonellau

J. Spinther James, *Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, ii, 429, 451;

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (Caerfyrddin 1778), 259

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734576

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, R. T., (1953). BOWND, WILLIAM (fl. c. 1658), Bedyddiwr Arminaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BOWN-WIL-1658>

CC0

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government